# Rheoliadau Safonau'r Gymraeg - Adroddiad Monitro Blynyddol 2023-2024

Medi 2024

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Yr hyn a wnawn

**Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 826,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth hon.**

Rydym yma i amddiffyn y cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn gwella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr ac yn sicrhau ansawdd eu rhaglenni addysg. Rydym yn cynnal cywirdeb y gofrestr o'r rhai sy'n gymwys i ymarfer. Ac rydym yn ymchwilio i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar ychydig iawn o bobl ar ein cofrestr pob blwyddyn.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod wedi'i cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, mewnwelediad a dysg, i **ddylanwadu** a llywio penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

# Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

**Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8), fel y'u nodir gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cynnydd o ran gweithredu Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio'n gyson â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus yn ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

# Blaenoriaeth strategol

**Mae strategaeth yr NMC ar gyfer 2020-2025 yn cynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg fel un o'n 22 ymrwymiad corfforaethol.**

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau cysylltiedig yn sail i'n dull o gydymffurfio â'r Gymraeg, fel y nodir isod:

**Teg**

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n rhyngweithio â'n gwasanaethau yn cael cyfleoedd teg i ymgysylltu â ni a chyrchu gwybodaeth yn Gymraeg, ac yn gallu ymddiried yn ein hymrwymiad i'r Rheoliadau newydd.

**Caredig**

Rydym yn gwerthfawrogi pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn barchus wrth ymdrin â cheisiadau Cymraeg. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ac yn hyderus i ymgysylltu â ni yn Gymraeg.

**Cydweithredol**

Byddwn yn buddsoddi yn ein perthnasoedd presennol, gan gynnwys gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg ehangach, gan gydnabod ein bod ar ein gorau pan ydym yn gweithio'n dda gydag eraill.

**Uchelgeisiol**

Byddwn yn agored i ffyrdd newydd o fodloni ein gofynion o ran y Gymraeg, a byddwn bob amser yn anelu at wneud ein gorau dros siaradwyr Cymraeg.

# Llywodraethu ein gwaith iaith Gymraeg

**Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'n holl gydweithwyr yn chwarae rhan wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae Ruth Bailey, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl ac Effeithiolrwydd Sefydliadol, yn gyfrifol am oruchwylio ein hadroddiadau blynyddol ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg.**

Sam Foster yw Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol Ymarfer Proffesiynol ac mae hefyd yn Gyfarwyddwr Arweiniol Cymru. Yn y rôl hon, mae Sam yn goruchwylio ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru ar lefel strategol ac yn cadeirio ein gweithgor mewnol Cymru.

Mae ein gweithgor mewnol Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod diweddariadau allweddol sy'n ymwneud â'n rôl reoleiddiol yng Nghymru. Mae'n ystyried safbwynt pobl sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru ar ddatblygiadau polisi a chyhoeddiadau arfaethedig yr NMC. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r NMC.

Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg mewnol sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r NMC sydd wedi bod yn gyfrifol am weithredu Safonau'r Gymraeg. Mae data ar bob un o'r meysydd cydymffurfio yn cael eu casglu a'u trafod yn y cyfarfod chwarterol hwn. Trafodir hefyd unrhyw faterion sy'n codi neu feysydd i'w gwella.

# Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

**Mae'n ofynnol i'r NMC gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ers 6 Rhagfyr 2023. Rydym o'r farn ein bod wedi bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ers y dyddiad hwn.**

Ym mis Gorffennaf 2024 fe wnaethom gwblhau hunanasesiad ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Fe wnaethom ddatgan lefel uchel o sicrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o safonau, gan ein bod wedi gwneud gwaith sylweddol i sicrhau bod pob tîm yn barod i ymateb i geisiadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Erys llawer o'r safonau heb eu profi oherwydd niferoedd isel o geisiadau, fodd bynnag rydym yn fodlon bod prosesau a chanllawiau ar waith pe byddem yn derbyn cais o'r fath.

Ar gyfer y safonau sy'n ymwneud â gwefannau, fe wnaethom ddatgan lefel ganolig o sicrwydd oherwydd y dull cymesur a ddefnyddiwyd gennym i gyfieithu tudalennau gwefannau. Mae hyn yn golygu bod dolenni i dudalennau gwefan sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar rai o'n tudalennau gwe sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Yn ein hunan-ddatganiad cydnabuwyd bod angen diweddariadau ar lawer o dudalennau gwe'r NMC, a bryd hynny byddwn yn ystyried a oes angen cyfieithu ychwanegol.

Fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg gytuno i estyniad i ni gydymffurfio â Safon 20, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni greu fersiwn Gymraeg o'r broses gwneud cais am gofrestriad ar gyfer y rhai a hyfforddwyd yn y DU. Oherwydd y rhaglen ddiwygio reoleiddiol a ragwelir, gofynnwyd am ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y safon hon, a chaniatawyd hyn, ac mae gennym tan 31 Rhagfyr 2025 i weithredu'r safon hon. Rydym yn parhau i weithio tuag at y dyddiad hwn ar gyfer gweithredu Safon 20.

Goruchwyliwyd ein gweithgarwch gweithredu gan fwrdd prosiect traws-sefydliadol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a gyfarfu'n fisol o fis Awst 2022. Rhannwyd y 67 safon yn saith ffrwd gwaith ac roedd arweinwyr ym mhob maes yn gyfrifol am nodi pa weithgarwch oedd ei angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.

Fe wnaeth bwrdd prosiect Safonau'r Gymraeg ddatblygu mentrau ar draws yr NMC i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Trwy'r broses hon rydym wedi:

- Datblygu canllawiau ategol i bob cydweithiwr mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o dan y Safonau, gan gynnwys polisi Iaith Gymraeg, Cwestiynau Cyffredin, a chanllawiau ategol penodol ar gyfer y safonau llunio polisi.
- Sefydlu llinell ffôn awtomataidd Gymraeg a phrosesau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu os oes angen.
- Creu prosesau ar gyfer cyfieithu dogfennau fel rhan o brosiectau corfforaethol neu ar sail ad-hoc, gan gynnwys mewn perthynas ag achosion Addasrwydd i Ymarfer.
- Creu ffurflen Asesu'r Effaith ar y Gymraeg, templed a chanllawiau ategol i gydweithwyr ystyried effeithiau cadarnhaol neu andwyol posibl penderfyniad polisi neu newid ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfathrebu mewnol i sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'r newidiadau a'u cyfrifoldebau o dan y rheoliadau newydd. Fe wnaethom ddarparu diweddariadau drwy sesiynau briffio'r holl staff, sianeli cyfathrebu mewnol a thrwy fynychu cyfarfodydd tîm unigol, gan sicrhau'r ymwybyddiaeth fwyaf posibl ymhlith cydweithwyr ym mhob maes o'r NMC.
- Diweddaru ein systemau AD i alluogi cydweithwyr yr NMC i ddatgan eu lefelau sgiliau Cymraeg a sefydlu prosesau i hwyluso ceisiadau am hyfforddiant iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi diweddaru ein modiwl e-ddysgu iaith a diwylliant Cymraeg.

Yn dilyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus, mae'r prosiect sy'n canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y dyddiad cydymffurfio wedi dod i ben. Mae gennym bellach Fwrdd Safonau'r Gymraeg gan fod ffocws wedi symud i fonitro ein cydymffurfedd parhaus, a chasglu data perthnasol bob chwarter. Mae'r data a gesglir gan y bwrdd hwn yn bwydo i mewn i'r adroddiad blynyddol hwn.

# Monitro data blynyddol

**Mae Safon 66 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC ddarparu data yn yr adroddiad blynyddol hwn ar y meysydd a ganlyn:**

1. Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.
2. Nifer y cydweithwyr sy'n datgan sgiliau iaith Gymraeg a'u lefelau sgiliau.
3. Nifer y swyddi gwag neu newydd lle mae angen sgiliau Cymraeg.

**Ar gyfer y cyfnod rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024, gallwn ddarparu'r data canlynol:**

1. Ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion mewn perthynas â'n cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.
2. Datganodd tri (3) cydweithiwr sgiliau iaith Gymraeg. Datganodd dau o'r rhain hyfedredd lefel A1 CEFR, a datganodd un hyfedredd lefel A2 CEFR.
3. Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi gwag na newydd lle mae angen sgiliau Cymraeg.

**Yn ystod y cyfnod hwn, casglwyd data ychwanegol am ein darpariaeth Gymraeg:**

- Roedd angen cyfieithu Cymraeg ar wyth darn o waith prosiect corfforaethol.
- Cyfieithwyd un dudalen gwefan ychwanegol i'r Gymraeg.
- Fe fu 982 o ymweliadau â gwefan Gymraeg yr NMC.
- Gofynnodd un cydweithiwr am fanylion ynghylch hyfforddiant iaith Gymraeg, ac fe wnaeth dau gydweithiwr gwblhau hyfforddiant ar-lein ychwanegol ar yr iaith Gymraeg a'i hanes. Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd hyfforddi hyn gyda'r nod o gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n eu dilyn.
- Cwblhawyd un Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEIG) fel rhan o Gam 1 ein hadolygiad o Ymarfer Uwch. Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan yn **Gymraeg** ac yn **Saesneg**. Mae cwblhau Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn rhan o gylch datblygu polisi'r NMC ac mae'n fecanwaith i ystyried unrhyw effeithiau andwyol neu gadarnhaol yn sgil penderfyniad polisi neu newid ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ein nod yw cynyddu nifer yr AEIG sy'n cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol i ddod.

# Camau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

**2024-2025 fydd blwyddyn ariannol lawn gyntaf yr NMC yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd bwrdd monitro'r Gymraeg yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i gynnal trosolwg o'n cydymffurfedd â'r safonau, a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.**

Byddwn yn parhau i hybu ymwybyddiaeth o Reoliadau Safonau'r Gymraeg a'n cyfrifoldebau gyda chydweithwyr yn yr NMC, a'n nod yw cynyddu nifer y cydweithwyr sy'n dilyn hyfforddiant mewn perthynas â'r Gymraeg a'i hanes.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg pellach yn cael eu cwblhau mewn perthynas â'n prosiectau mawr a'n gwaith datblygu polisi. Mae'r gofyniad i gwblhau AEIG ac ystyried effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei amlygu mewn fframweithiau rheoli prosiect, yn ogystal â'r templedi ar gyfer papurau i'w cyflwyno i'r Cyngor.

Byddwn yn parhau i adolygu'r tudalennau a ddarperir yn Gymraeg ar wefan yr NMC, ac wrth i dudalennau gael eu diweddaru byddwn yn ystyried a ddylid eu cyfieithu i'r Gymraeg hefyd.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac rydym yn edrych ymlaen at gynnig ein barn drwy'r fframwaith newydd o gyd-reoleiddio a hunanasesu cydymffurfedd yn erbyn y safonau. Byddwn yn parhau i ymrwymo i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer pobl sy'n ymgysylltu â ni, a gweithio i sicrhau ein bod yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

# Gweithgarwch ymgysylltu diweddar

## Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng **1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024**, fe wnaeth yr NMC gynnal nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Ar 27 Medi 2023, cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Agored yng Nghaerdydd. Cyfieithwyd deunyddiau'r cyfarfod hwn i'r Gymraeg, a darparwyd cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg, yn unol â Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â digwyddiadau yng Nghymru. Cafodd y cyfarfod hwn dderbyniad da gan randdeiliaid a rhoddodd gyfle i brofi ein cydymffurfedd â'r safonau cyn y dyddiad cydymffurfio ym mis Rhagfyr 2023.

## Ymgysylltu traws-reoleiddiol ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg

Fe wnaeth yr NMC a'r GMC gyd-gadeirio Fforwm Cyd-reoleiddwyr Safonau'r Gymraeg a oedd hyd at fis Rhagfyr 2023. Drwy'r ymgysylltu hwn rydym wedi trafod ein hymagweddau priodol at weithredu'r safonau a'n dealltwriaeth o sut i gymhwyso'r safonau yng nghyd-destun rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal .

## Rheoleiddio Proffesiynol ac Ymarfer Proffesiynol

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe fu ymgysylltu â sefydliadau'r GIG, gweithrediaeth y GIG a rhanddeiliaid allanol yng Nghymru. Adlewyrchir hyn yn y nifer cynyddol o geisiadau rydym wedi'u derbyn am sesiynau cefnogol, trafodaeth yn ymwneud ag ymholiadau proffesiynol yn ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer (FtP), cymhwyso'r Cod, ail-ddilysu, cofrestru a negeseuon craidd yr NMC (er enghraifft profion cyfrifiadurol (CBT), Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET), Ymarfer Uwch a'r broses FtP).

Ar 26 Mai 2023, fe wnaeth Anne Trotter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ymarfer Proffesiynol) ac Aditi Chowdhary-Gandhi (Pennaeth Safonau) fynychu cyfarfod Lansio Grŵp Datblygu Dogfen Asesu Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN) a Chymhwyster Ymarferydd Arbenigol (SPQ) i drafod Safonau Ôl-gofrestru.

## Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr

Ers mis Ionawr 2024, mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr (ELS) wedi cynnal cyfarfodydd misol gyda Dirprwy CNO Cymru ac wedi cefnogi ymchwiliadau lefel uchel i achosion FtP agored sy'n ymwneud â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr wedi cynnal wyth ar hugain o sesiynau ymgysylltu a dysgu i uwch dimau nyrsio a bydwreigiaeth a chofrestryddion ar draws pob Bwrdd Iechyd a dwy Ymddiriedolaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

1. Pedair sesiwn 'Croeso i'r DU' gyda'r nod o gefnogi ein cydweithwyr a hyfforddodd dramor yn wreiddiol ac sydd wedi dod i weithio yng Nghymru (y cyfeirir atynt yn aml fel Nyrsys a Addysgwyd yn Rhyngwladol – IENs).
2. Cyflwyno un ar ddeg o sesiynau pwrpasol i Fydwragedd ledled Cymru.
3. Un sesiwn gydweithredol gyda'r GMC i Obstetryddion a Bydwragedd mewn Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr wedi cynnal 25 o sesiynau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allanol megis RCN, RCM, gweithrediaeth y GIG a rheolyddion proffesiynol gyda thair sesiwn ddysgu arall wedi'u darparu i fyfyrwyr mewn dau AEI yng Nghymru. Gwahoddwyd y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr hefyd i fynychu a chefnogi saith o gyfarfodydd Adolygu Marwolaethau Amenedigol a Morbidrwydd Gweithrediaeth GIG Cymru Gyfan.

Fe wnaeth ELS gefnogi deg o gofrestreion a oedd yn mynd drwy'r prosesau Addasrwydd i Ymarfer a chefnogi dau dyst i baratoi ar gyfer y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FtPC).

Ar 5 Hydref 2023, fe wnaeth yr NMC gynhyrchu diweddariad dwyieithog o'r broses Addasrwydd i Ymarfer gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a'i gyflwyno i Reolwyr Cartrefi Gofal.

Mae'r Cynghorydd Rheoleiddio ar gyfer y Sector Iechyd Annibynnol wedi dechrau trafodaethau gyda darparwyr yn y sector hwn ledled Cymru.

## Rhanddeiliaid y sector iechyd a gofal cymdeithasol

Fel Cyfarwyddwr Arweiniol Cymru, mae Sam Foster wedi cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a gadeiriwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio a Dirprwy CNO Cymru.

Ar 1 Mehefin 2023, cafodd Andrea Sutcliffe (cyn Brif Weithredwr) ac Alice Hood (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ymgysylltu â'r Cyhoedd) gyfarfod rhagarweiniol ag Alyson Thomas, (Prif Weithredwr, Llais) i drafod gwaith Llais, y sefydliad llais cyhoeddus ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ar 6 Gorffennaf 2023, mynychodd Alyson Thomas y cyfarfod Bord Gron Rhanddeiliaid Cyhoeddus i drafod datblygiad ein Strategaeth.

Ar 28 Mehefin 2023, roedd Sue Tranka, Gill Knight a Karen Jewell (Swyddog Nyrsio ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar) yn bresennol yng nghyfarfod y Gweithgor Traws-sefydliadol CBT.

Ar 7 Awst 2023 cyfarfu Sam Foster, Lesley Maslen (Cyfarwyddwr Gweithredol dros Reoleiddio Proffesiynol) a Ruth Walker (Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) â Gill Knight i drafod y llwyth achosion ar gyfer Cymru.

Ar 20 Medi 2023, anfonodd yr NMC ein hymateb i lythyr y PSA at Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, at y Farwnes Morgan o Drelái, Gweinidog Iechyd Cymru.

Ar 28 Tachwedd 2023, fe wnaeth Anne Trotter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Ymarfer Proffesiynol) fynychu 8fed Symposiwm Efelychu ac Addysgu Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r NMC yn parhau i gael ei wahodd i gymryd rhan yn Uwchgynhadledd Gofal Iechyd Traws-reoleiddiol Cymru a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) bob chwe mis.

## Cymdeithion nyrsio yng Nghymru

Derbyniodd yr NMC gais gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i reoleiddio'r rôl cydymaith nyrsio yng Nghymru, yn amodol ar y newidiadau angenrheidiol i'n deddfwriaeth. Cytunodd ein Cyngor i'r cais ym mis Mawrth 2024 a hyd nes y galwyd yr Etholiad Cyffredinol roeddem yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DHSC ar y newid deddfwriaethol. Bydd y trafodaethau hynny'n ailddechrau ym mis Medi 2024.

Mae Emma Westcott (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strategaeth a Mewnwelediad) yn arwain y gwaith, ac mae hi wedi ymuno â bwrdd rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r newid hwn. Mae cydweithwyr eraill yn cymryd rhan mewn is-grwpiau o fwrdd y rhaglen. Mae Emma'n ymgymryd ag ymrwymiadau yng Nghymru ar bwnc rheoleiddio cymdeithion nyrsio, gan gynnwys cynadleddau a chyfarfodydd dwyochrog yn ôl y gofyn.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)